Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

# Cylchlythyr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif y Cylchlythyr: | WG 001/2015 | Dyddiad cyhoeddi: | 09 / 02 / 2015 |

| | |
|---|---|
| Statws: | Er gwybodaeth |
| Teitl: | Hysbysiad y dirwyn i ben y cynllun sy'n profi gwasgedd aer |

**Cyhoeddwyd gan:**

François Samuel, Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

| Cyfeiriwyd at: | Anfonwch ymlaen at: |
|---|---|
| Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Cymdeithas yr Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol<br>Cyngor y Diwydiant Adeiladu | Aelodau Cynulliad<br>Swyddogion Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol<br>Aelodau |

**Crynodeb:**

I hysbysu y bydd y Sefydliad Prydeinig dros Brofi Anninistriol (BINDT) yn dirwyn i ben y cynllun sy'n profi gwasgedd aer. Ar hyn o bryd, caiff y cynllun hwnnw ei awdurdodi gan reoliad 43 o Reoliadau Adeiladu 2010.

**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:**


| | |
|---|---|
| Colin Blick<br>Rheoliadau Adeiladu<br>Llywodraeth Cymru - Rhyd-y-car | Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8144<br>E-bost: enquiries.brconstruction@cymru.gsi.gov.uk<br>Gwefan: wales.gov.uk/topics/planning/buildingregs/?lang=cy |


© Hawlfraint y Goron 2013 WG 19471

Annwyl Syr / Madam

**Rheoliad 43 o Reoliadau Adeiladu 2010 a Rheoliad 20 o Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010: Cynlluniau Profi Gwasgedd Aer.**

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu y bydd y Sefydliad Prydeinig dros Brofi Anninistriol (BINDT) yn dirwyn i ben y cynllun sy'n profi gwasgedd aer. Ar hyn o bryd, caiff y cynllun hwnnw ei awdurdodi gan reoliad 43 o Reoliadau Adeiladu 2010. Mae BINDT wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ei fod yn bwriadu dirwyn y cynllun hwn i ben ar 31 Rhagfyr 2014. O ganlyniad, bydd goblygiadau i gyrff rheoli adeiladau.

***Nodyn***: *Nodwch y bydd cynllun y Sefydliad dros Brofi a Mesur Tyndra Aer (ATTMA) yn parhau i gael ei awdurdodi ac ni fydd dim o'r hyn sy'n dilyn yn gymwys i'r cynllun hwnnw.*

### *Rheoliad 43*

Mae Rheoliad 43 yn darparu dwy ffordd i ganlyniadau'r profion gwasgedd aer gael eu rhoi i gorff rheoli adeiladu.

Yn gyntaf, o dan reoliad 43(4) mae cyrff rheoli adeiladau wedi'u hawdurdodi (ond nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny) i dderbyn tystysgrif oddi wrth aelod o'r cynlluniau a awdurdodir gan y rheoliad hwn fel tystiolaeth i ddangos bod gwasgedd aer adeilad wedi'i brofi o dan amgylchiadau, ac yn unol â gweithdrefn, a ragnodir gan Weinidogion Cymru.

Yn ail, pan fo person nad yw'n aelod o gynllun awdurdodedig yn cynnal y profion, rhaid i'r person hwnnw roi hysbysiad o dan reoliad 43(2) a (3) yn hytrach na thystysgrif, gan nodi canlyniadau'r profion a'r data y mae'r canlyniadau'n seiliedig arnynt. Caiff corff rheoli adeiladu ystyried yr wybodaeth a ddarperir yn yr hysbysiad wrth iddo benderfynu a yw canlyniadau'r profion yn adlewyrchiad teg o wasgedd yr aer mewn adeilad ac a yw'r weithdrefn rhagnodedig wedi'i dilyn.

### *Effaith BINDT yn dirwyn y cynllun i ben*

Bydd cofrestr BINDT ar gyfer profi gwasgedd aer yn cael ei rhewi o 31 Rhagfyr 2014 ymlaen. Er hynny bydd yn parhau i fod ar gael ar wefan BINDT www.bindt.org gyda cholofn wedi'i hychwanegu i nodi'r dyddiad y bydd dyddiad y cofrestriad yn dod i ben ar gyfer pob busnes sy'n cynnal y profion. Bydd hynny'n digwydd ar wahanol ddyddiadau yn ystod 2015. Bydd cyrff rheoli adeiladu yn parhau i gael awdurdod i dderbyn tystysgrifau gan bobl sydd wedi'u cofrestru o dan BINDT hyd nes y bydd y cofrestriad hwnnw'n dod i ben. Wrth benderfynu p'un ai i dderbyn tystysgrif o'r fath ai peidio wedi 31 Rhagfyr 2014, bydd angen i gyrff rheoli adeiladu ystyried y ffaith na fydd BINDT yn archwilio unrhyw gwmnïau nac yn asesu unrhyw fusnes sy'n cynnal y profion wedi'r dyddiad hwnnw.

Os bydd profion gwasgedd aer yn cael eu cynnal gan fusnes cofrestredig ar neu ar ôl y dyddiad y mae ei gofrestriad yn dod i ben, ni fydd unrhyw dystysgrif a roddir ganddynt yn ddilys. Golyga hynny na fydd cyrff rheoli adeiladu yn gallu derbyn y tystysgrifau hynny fel tystiolaeth o gydymffurfiaeth ond bydd yn rhaid iddynt drin unrhyw dystysgrifau o’r fath fel hysbysiad o dan reoliad 43(2) a (3). Mae'r dystysgrif a'r hysbysiad yn cynnwys gwybodaeth debyg. O ganlyniad, y prif effaith yw y bydd yn rhaid i'r corff rheoli adeiladu asesu’r wybodaeth sydd yn yr hysbysiad a phenderfynu a yw'n cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dileu’r cyfeiriad at BINDT sydd yn rheoliad 43, a hynny i gael effaith o’r dyddiad pan fydd cofrestriad y busnes profi olaf yn dod i ben.

***Ymholiadau***

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn, dylech eu cyfeirio at enquiries.brconctruction@cymru.gsi.gov.uk